motor neurone disease association
cymdeithas clefyd motor niwron

# Gwirfoddolwr Cyffredinol

"Mae'n fraint bod yn wirfoddolwr i Gymdeithas MND. Y peth sydd yn rhoi'r boddhad mwyaf yw gwybod fy mod wedi helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaeth, y cyfarpar a'r cymorth sydd ei angen arnynt." Jo-Ann, Gwirfoddolwr

Rydym yn chwilio am Wirfoddolwyr i'n helpu i gyflwyno ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau Cangen/Grŵp.

Fel Gwirfoddolwr Cyffredinol, byddwch yn cynorthwyo eich Cangen neu eich Grŵp i godi arian a hybu ymwybyddiaeth o MND mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys cefnogi mewn digwyddiadau lleol. Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu a bydd costau teithio yn cael eu had-dalu.

## Amdanom ni



Mae MND yn glefyd angheuol, sydd yn datblygu'n gyflym ac yn effeithio ar yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn. Mae'n ymosod ar y nerfau sydd yn rheoli symudiad felly mae'r cyhyrau yn gwrthod gweithio. Gall adael pobl wedi eu cloi mewn corff methedig, yn methu symud, siarad ac, yn y pen draw, anadlu. Mae'n lladd traean y bobl o fewn blwyddyn a thros hanner o fewn dwy flynedd o gael diagnosis, ac nid oes iachâd ohono.

Sefydlwyd Cymdeithas MND ym 1979. Ein cenhadaeth yw gwella gofal a chymorth ar gyfer pobl ag MND, eu teuluoedd a gofalwyr. Rydym hefyd yn ariannu ac yn hyrwyddo ymchwil sydd yn arwain at ddealltwriaeth a thriniaethau newydd ac yn dod â ni yn agosach at iachâd ar gyfer MND.

## Pa fath o hyfforddiant/sefydlu fyddaf yn ei gael cyn dechrau?

Byddwch yn cael eich sefydlu yn y rôl ac yn cael gwybodaeth am y Gymdeithas. Fel rhan o hyn, byddwch yn cael sesiynau e-ddysgu, hyfforddiant wyneb yn wyneb a mentora. Bydd y rhaglen hyfforddiant hefyd yn cynnwys dysgu profiadol ac adlewyrchol.

## Beth yw'r cam nesaf?

Mynegwch eich diddordeb neu gallwch gael mwy o wybodaeth trwy ebostio volunteering@mndassociation.org neu ffoniwch ni ar 01604 611681. Rydym yn annog ac yn croesawu ceisiadau o bob cefndir a phob cymuned.